Cofnodion cyfarfod rithiol 13 Gorffennaf 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws	Cynog Prys	
Daniel Williams	Emyr Gareth	
Llŷr Evans	Dafydd Huws	
Lliwen Griffiths-Williams		
	Cynghorydd Sir – Gareth Griffiths	
	Wynne Barton - Swyddog Ariannol	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cadeirydd Iwan Huws. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Iestyn Harris, Nerys John a Eifion Williams	
1.1	Cymhwyster y Clerc - Y Clerc wedi derbyn bursary ar gyfer hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant yn cychwyn ar y 21 o Fedi 2021. Hyfforddiant rhithiol am 6 mis.	
1.2	Llythyr diffyg ymateb a chyfathrebu gan Gyngor Gwynedd – y Cyngor yn barod i dderbyn rhan yn y drafodaeth.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
	Y Cynghorydd Sir yn bresennol. Bydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth fel bo'r angen.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Iwan Hughes – eitem 6.1	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol adroddiad gwariant mis Mehefin 2021 i'r Cyngor. Derbyniwyd yr adroddiad.	**Swyddog Ariannol**
4.2	Cafwyd eglurhad gan y Swyddog Ariannol i Siec rhif 380. Roedd y Banc wedi anfon y siec yn ei hol oherwydd nid oedd un Cynghorydd yn ddilys i arwyddo er bod y llofnod wedi ei dderbyn gynifer o weithiau yn y gorffennol. Siec newydd wedi ei gyflwyno. Yn y cyfamser bydd angen i'r Cynghorydd Iestyn Harris a Chynghorydd Dan Williams i lofnodi.	**Swyddog Ariannol**
4.3	Archwiliad mewnol wedi ei gwblhau a'r mater bellach ar y ffordd i Awdit Cymru – disgwylir ymateb erbyn mis Medi. Bydd y Swyddog Ariannol yn parhau yn ei swydd hyd ddiwedd mis Medi. Y Clerc yn cychwyn gyda dyletswyddau cyllidol o Hydref 1af 2021.	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Mehefin 21 fel rhai cywir.	**CLERC**
5.2	Yn codi o'r cofnodion: Dim ymateb wedi bod gan Priffyrdd Gwynedd ar y materion; • Dwr yn arllwys i'r ffordd - dim ymateb wedi bod er bod gohebiaeth bellach wedi ei anfon. Dan Williams yn datgan bod gwaith wedi bod ar y safle ar Ffordd Caernarfon ger y Safle Bws yn ddiweddar gyda sgaffald wedi ei osod. Bydd y Cynghorydd Sir yn gwneud ymholiadau a'r uned. Deallir bod Cyngor Gwynedd wedi cysylltu â Dwr Cymru ar y mater.	**CLERC** **CLERC**

	• Ffordd ger y Feddygfa – Dim ymateb • Wal gynnal ar y ffordd i'r hen gei llechi – dim ymateb Dim ymateb wedi bod ynglŷn â Llwybr Afon Heulyn Cae Ysgol – y mater yn nwylo'r llywodraethwyr a Chyngor Gwynedd. Mabwysiadu ciosg Lan y Môr - Y Clerc i wneud ymholiadau a BT i symud ymlaen a mabwysiadu'r ciosg. Toiledau - Mae Cyngor Gwynedd angen un ai asesiad risg neu method statement ar gyfer y gwaith ar y toiledau. Bydd Y Cynghorydd Daniel Williams a'r Clerc yn rhoi Cymorth I'r contractwr ar y mater.	
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO - Cadeiriwyd eitemau cynllunio gan y Cynghorydd Daniel Williams.**	
6.1	Rhif Cais : C21/0417/20/DT Lleoliad : 73 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PE Bwriad:: Cais er mwyn codi ardal decin uwchlaw gardd cefn Derbyniwyd llythyrau ynglŷn â'r cais oddi wrth drigolion Hen Gei Llechi. Y Clerc I anfon ymlaen y llythyrau hyn at y Swyddog Cynllunio Priodol ar y mater. Trafodwyd y mater gan y Cyngor a phenderfynwyd anfon y sylwadau ar y cais yn datgan pryder ar faint y strwythur, cymeriad yr ardal yn cael ei newid a bod y datblygiad yn effeithio cymdogion.	
6.2	Rhif Cais : C21/0607/20/LL Lleoliad: Fferm Parciau, Caernarfon, LL55 1TS Bwriad: Estyniad i'r adeilad silwair presennol. **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	GORCHYMYN CYNGOR GWYNEDD(GWAHARDD A CHYFYNGU AROS A MANNAU PARCIO AR Y STRYD) (ARDAL ARFON RHIF 13) 2021 - trafodwyd y mater a phenderfynwyd bod y Cynghorydd Gareth Griffiths yn siarad â'r adran i sicrhau lleoliadau'r gwaharddiadau.	**CLERC**
7.2	Mae tyfiant yn rhwystro'r palmant ger y Clwb hwylio. - Y Clerc i gysylltu â'r adain briffyrdd.	
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Mae ffens newydd wedi ei gosod yn yr ardal o Faes Parcio'r Cyngor hyd at hen safle Penningtons.	**CLERC**
8.2	Deallir bod Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd yn ymddeol. Dim ateb wedi bod i faterion llwybrau fel Lwybr Afon Heulyn.	**CLERC/IH/GG**
8.3	Bydd yr ail doriad ar y llwybrau yn cael ei wneud diwedd mis Gorffennaf.	
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Dim gwybodaeth bellach ynglŷn â phrisiau i adfer safle Moria.	
9.2	Mae pris wedi ei dderbyn am y gwaith adfer sydd ei angen i wal y maes Parci - pris rhesymol. Cytunodd y Cyngor i dderbyn y pris. Y Cynghorydd Daniel Williams i adael y Contractwr wybod bod y pris wedi ei dderbyn ac i symud ymlaen i wneud y gwaith.	**DW**

9.3	Roedd sylw wedi dod bod pridd dros ben ar ôl claddedigaethau yn y fynwent yn cael ei adael ym mynwent y plwyf. Roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda'r ymgymerwyr angladdau'r ardal a chafwyd gwybod bod y pridd sydd yn weddill yn cael ei gario o'r fynwent yn unol â rheoliadau'r Cyngor. Bydd y Clerc yn anfon at y Tad Dylan Williams er gwybodaeth.	
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Cafwyd gwybod bod lansiad rhithiol wedi bod o'r cynllun atal llifogydd ar Lan y Môr. Nid oedd fwy o wybodaeth i'w ddatgan. Y Clerc i anfon gair o ddiolch at y Clwb hwylio.	
10.2	Cae Chwarae - dim gweithred bellach wedi bod ar y cae chwarae. Elliw yn parhau i fod yn gyswllt gyda'r prosiect.	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Adroddiad Neuadd Goffa 13-07-2021 gan y Cynghorydd Dan Williams **<u>Defnydd</u>** Mae'r defnydd o'r Neuadd Goffa wedi ehangu yn ystod y mis diwethaf Mae Neuadd Yr Eglwys wedi gorfod cau. Mae Medi Williams wedi symud ei dosbarthiadau dawnsio Ballroom o Neuadd Yr Eglwys I'r Neuadd Goffa. Mae pwyllgor y Felingylchu wedi gwneud cais i ddefnyddio'r Neuadd i ddidoli a storio defnyddiau i'w gwerthu. Byddent yn cynnal arwerthiant yn yr Hydref. Mae lle yn yr is lawr iddynt ddidoli defnyddiau a lle yn yr islawr, ar ochor y llwyfan uwchben y storfeydd ac yn y balconi iddynt storio defnyddiau. Mae'r is bwyllgor yn cynnig ein bod yn gadael i fudiad Y Felingylchu i ddefnyddio'r neuadd am ddim. Rydym mewn trafodaethau hefo pobol sydd eisiau cynnal sesiynnau Pickle Ball. **<u>Defnydd Presennol</u>** Nos Lun – Rainbows, Brownies, Guides. Dydd Mawrth – Dawnsio. Dydd Mercher – Dawnsio. Dydd Iau – Bowls. **<u>Cofnodi Defnydd</u>** Mae Ffurflen yn cofnodi defnydd wedi ei leoli ger y brif fynedfa fel bod pawb sydd yn defnyddio'r neuadd yn gallu gweld pa bryd oedd y defnydd, trwsio neu lanhau diwethaf. **<u>Glanhau</u>** Mae'r defnyddwyr yn diheintio wynebau sydd yn cael eu cyffwrdd fwyaf ar ôl defnyddio'r neuadd. Maent yn cofnodi hyn ar ffurflen yn y cyntedd. Mae'r ofalwraig yn glanhau tair gwaith yr wythnos ar fore Mawrth, Iau a Sadwrn. Mae'r rhestr wirio glanhau wedi cael ei ddiweddaru.	**DW**

	Cynnal a Chadw Mae'r gwair ger y llwybr at gefn y neuadd wedi cael ei dorri gan Wynne Llechi – Mae tair llechen wedi llithro ar y to ochor Bangor. Byddem yn cysylltu hefo adeiladwr. **Diffygion** **Llawr Ger Drws Tan 04 – Neuadd ochor Gaernarfon** Mae'r llawr wedi pydru ger y drws. Rydym wedi talu adeiladwr - Michael Hughes - I godi'r llawr i gael gweld maint y difrod. Gweler Invoice 12-07-2021 rhif 650 am £270-00. Roedd dwr wedi dod o dan y drws a heibio'r eco drain. Doedd dim tyllau awyru yn y rhan yma o'r adeilad. Rydym wedi derbyn pris am drwsio'r llawr a pharatoi mynediad i'r gofod. - i'w Drafod Cynnig bod Peter Wray yn ymweld a'r Neuadd i gadarnhau manylion y gwaith sydd ei angen – Y Cyngor yn cytuno i hyn.	
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC/CR**
13.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Bydd gwaith ar y cynllun yn parhau dros yr Haf.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:07	
Llofnod:		**Dyddiad:**